


BACK FROM THE BRINK











# Cyfeillion yn y Caeau







## Canllaw handi i'ch helpu i ddod i nabod cynefinoedd wrth grwydro'r caeau



## Ydych chi eisiau gwybod mwy?

Gallwch gael hyd i lwythi o adnoddau am fywyd gwyllt tir amaeth, i bob oed a gallu, ar plantlife.org.uk gan gynnwys mwy am weirgloddiau gwych ar Hyb y Gweirgloddiau, meadows.plantlife.org.uk. Gallwch ddarganfod mwy am infertebratau drwy ymweld â buglife.org.uk.

Ceisiwch ddatblygu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu am flodau caeau ŷd drwy lawrlwytho'r ap am Flodau Âr Prin neu gofnodi'r bywyd gwyllt a welwch ar iRecord.

Design/Illustrations by evansgraphic.co.uk

BACK FROM THE BRINK

gweirgloddiau gwych cymru
magnificent meadows wales

buglife

Plantlife

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

# Ble galla i gael hyd i Gyfeillion yn y Caeau?

Mae angen rhywle i fyw ar bopeth byw, rhywle sydd â bwyd a lloches. Mae gwahanol blanhigion yn byw mewn gwahanol leoedd. Mae anifeiliaid, gan gynnwys infertebratau, wedi addasu i gynefinoedd penodol. Gyda'i gilydd, mae'r planhigion ac anifeiliaid yn ffurfio ecosystem.
Gall ffermydd gynnwys llawer o wahanol gynefinoedd fel cnydau, ymylon a chaeau blodeuog, caeau gwair, gwrychoedd, pyllau a ffosydd. Gall y gwahanol gynefinoedd hyn gynnal llawer o fywyd gwyllt gyda llwythi o wahanol rywogaethau'n eu gwneud yn fioamrywiol.

**Mwy o gynefinoedd**
↓
**Mwy o fioamrywiaeth**
↓
**Mwy o ffrindiau i roi help llaw**

**Cynefin**
Y cartref naturiol, neu amgylchedd, lle mae planhigyn neu anifail yn byw

**Bioamrywiaeth**
Y term llawn yw amrywiaeth fiolegol a'i ystyr yw amrywiaeth bywyd planhigion ac anifeiliaid mewn cynefin neu dirwedd

## Pa gynefinoedd tir amaeth y ca i hyd iddynt?

Wrth grwydro yng nghefn gwlad, dyma rai o'r cynefinoedd a welwch chi lle mae ffrindiau'r ffermwr yn byw.

**Sawl un gallwch ei weld? Ticiwch nhw ar y rhestr wrth eu nabod.**


©Cath Shellswell

**Ymylon cyforiog o flodau a hadau.** Mae'r rhain i'w gweld ar ochrau'r caeau ac yn cynnwys planhigion blodeuol ynghyd â rhai arbenigol sy'n fwy prin. Gall bod â gwahanol fathau o flodau hybu llawer o wahanol fathau o ffrindiau'r ffermwr gan gynnwys peillwyr.


©Cath Shellswell

**Gweirgloddiau blodau gwyllt.** Mae'r glaswelltiroedd llawn blodau yma'n bwysig i bob infertebrat ac yn gartref i lawer o ffrindiau'r ffermwr. Gallant ddarparu paill a neithdar o'r gwanwyn i'r hydref gan ddibynnu ar y mathau o flodau sy'n bresennol.


©Dave E Smith

**Nodweddion y terfynau.** Mae gwrychoedd, waliau cerrig a banciau'n bwysig wrth gysylltu cynefinoedd â'i gilydd gan ddarparu cartrefi i lawer o ffrindiau'r ffermwr. Gall yr ymylon glaswelltog o danynt hefyd ddarparu lloches pan fydd cnydau'n cael eu cynaeafu.



**Ffosydd gwlyb, nentydd a phyllau.** Mae'r cynefinoedd hyn yn darparu cartrefi i lawer o ffrindiau'r ffermwr gwblhau eu cylchoedd bywyd ac maent yn cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt tir amaeth

## Sut mae Cynefinoedd yn Helpu?

Mae cynefinoedd mewn ac o amgylch caeau sy'n cysylltu gwahanol rannau o'r fferm yn denu gwahanol fathau o ffrindiau'r ffermwr i gartrefu ynddynt. Maent yn cyflawni tasgau hanfodol fel ysglyfaethu, peillio, parasitiaeth a chompostio. Mewn unrhyw gynefin mae yna wahanol gadwyni bwyd wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio gweoedd bwyd.

**Cadwyn fwyd**
Rhwydwaith o gysylltiadau rhwng organebau sy'n bwyta ei gilydd gan drosglwyddo maethynnau ac ynni

**Allwch chi gysylltu ffrindiau'r ffermwr yn y gadwyn bwyd âr syml isod gan ddefnyddio saethau?**


©Roger Labbett
Chwilen y llawr


©S. Falk
Ehedydd


© Sascha Kohlmann - CC BY-SA 2.0
Pryfed gleision


©S. Falk
Pryf hofran marmalêd


©Cath Shellswell
Ymyl cae cnydau

## Cymdogion Swnllyd

Bydd gan dir amaeth a chaeau âr sydd â gwahanol gynefinoedd amrywiaeth liwgar o ffrindiau'r ffermwr drwy gydol y flwyddyn. Y gwanwyn a'r haf yw'r amserau gorau i'w darganfod. Cymerwch gwpwl o funudau i sefyll yn llonydd wrth grwydro.


**Faint o wahanol synau y gallwch eu clywed? Ydych chi'n meddwl efallai mai un o'r rhain yw e?**



Mae'r **ehedydd** yn bwydo ar hadau a dail planhigion blodeuol yn ogystal â chnydau a phryfed. Byddant yn canu eu cân hir wrth godi i hofran cyn disgyn eto i'r ddaear!

Fel oedolion, mae **pryfed hofran** yn peillio a rhai o'u larfâu'n ysglyfaethu ar bryfed gleision sy'n gallu difrodi cnydau. Gallwch eu gweld y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac maent yn swnio'n debyg i suo gwenyn.





Peillwyr heb eu hail yw **cacwn**. Gwyliwch nhw wrth iddynt ymweld â blodau gan hel paill i fwydo eu larfâu. Mae sŵn suo arbennig ganddynt wrth hedfan.

Mae **ceiliogod y rhedyn** yn bwyta planhigion a hadau'n bennaf tra mai cigysol gan mwyaf neu hollysol yw'r **criciedyn hirgorn**. Cynhyrchir eu sŵn a all fod fel beic gwichlyd drwy rwbio rhannau o'u cyrff yn erbyn ei gilydd. Mae eu synau hefyd yn uwchsonig a gallwch eu codi ar synwyryddion ecoleoli!



# Canfod Ffrindiau'r Ffermwr yn y Caeau

Mae cynefinoedd toreithiog ac amrywiol yn cynnwys amrywiaeth iach o ffrindiau'r ffermwr a gynhelir gan ystod eang o blanhigion, rhai ohonynt yn eithaf prin ac arbennig.



**Wrth grwydro drwy'r caeau, allwch chi weld unrhyw infertebratau yn y gwahanol gynefinoedd?**

## Cnwd


©Katja Schulz CC BY 2.0
Chwilen grwydr las


©CC BY 2.0
Larfâu'r fuwch goch gota


©S.Falk
Pryf hofran marmalêd


©S. Rae CC BY 2.0
Pryfed gleision

### Beth yw peillio?

Mae peillio'n hanfodol er mwyn i blanhigion gynhyrchu ffrwythau a hadau. Mae planhigion blodeuol yn cynhyrchu paill gludiog sy'n glynu with gyrff pryfed. Mae'r pryfed yn trosglwyddo'r paill i blanhigion eraill o'r un rhywogaeth ac mae'r paill yn ffrwythloni'r ofari gan gynhyrchu hedyn a all dyfu'n blanhigyn newydd.

## Ymylon âr


©Andrew Whitehouse
Gwyfyn bwrned 6-smotyn


©S.Falk
Pryf hofran brithlwyd


©CC BY-SA 2.0
Chwilen filwrol goch


©Peter Hayes
Chwilen goesdew


©Cath Shellswell
Cacynen yr ardd

### Cacwn cain

5 llygad sydd gan gacwn mewn gwirionedd! Dau ar bob ochr i'r pen a thri llygad bychan ar y corun! Maent yn gweld mewn patrymau sy'n eu helpu i adnabod planhigion a gwenyn eraill. Hefyd, mae ganddyn nhw'r gallu anhygoel i weld nid yn unig lliw ond golau uwchfioled yn ogystal. Mae hyn yn peri i rai blodau fod yn fwy amlwg a deniadol gan eu hannog i ymweld â nhw!



## Gweirglodd flodeuog


©Matt Shardlow
Chwilen poeri gwaed


©S.Falk
Cardwenynen gyffredin


©S.Falk
Cacynen gynffongoch


© Darren Bradley
Glöyn gwyn cleisiog

## Banc y Chwilod


©gailhampshire CC BY 2.0
Chwilen y llawr, *Harpalus affinis*


©PJon Mold
Buwch goch gota 7-smotyn


©Frank Kohler
Chwilen cefn blewog Mellet


©Matt Shardlow
Gwrachen belen




### Mae planhigion yn berffaith

Mae planhigion blodeuol yn defnyddio gwahanol ddulliau i annog pryfed i ymweld â nhw. Mae gan rai liwiau hyfryd sy'n denu pryfed, mae gan rai eraill 'darged glanio' amlwg sy'n eu gwahodd i lanio, neu bersawr cryf. Allwch chi gael hyd i flodau neu blanhigion sy'n debyg?

### Mosgitos a gwybed gogoneddus!

I'w cael ar bob cyfandir ac ym mhob cynefin bron, mae'r pryfed hyn yn hollbwysig i'n hecosystem. Maent yn gompostwyr dyfrol, yn ysglyfaethwyr pwysig, yn beillwyr, gan gynnwys coco, ac yn brif ffynhonnell fwyd i lawer o infertebratau, adar a mamaliaid eraill.



## Terfynau caeau – gwrych


©S. Rae CC BY 2.0
Larfâu'r fuwch goch gota 7-smotyn



©S.Falk
Pryf sgorpion


©Dan TP
Porthor


©Björn S - CC BY-SA 2.0
Cacynen y coed

## Ffosydd gwlyb a phyllau


©Dan TP
Pryf hofran teigr


©AfroBrazilian CC BY-SA 4.0
Rhiain y dŵr


©Darren Bradley
Mursen werdd


©S.Falk
Pryf dawnsio